# Adolygiad o Gyfranogiad – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1842A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae’r Cod Adran 45 yn nodi’r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru trwy e-bostio swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Robert Lloyd, Steve Frank ac Euros Lake.

# Cynnwys

Mae gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nid yw wedi mabwysiadu ymagwedd strategol integredig tuag at gyfranogi hyd yma.


Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 4

Ymgysylltu 5

Cwmpas ein harchwiliad 6

Ein canfyddiadau 6

Cynigion ar gyfer gwella 12

Atodiadau

Atodiad 1 – enghreifftiau o ddulliau cyfranogi yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU 16


# Adroddiad cryno

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

1 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 'Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith hefyd sy'n dweud wrth y cyrff cyhoeddus hynny a gwmpesir gan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.

2 Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 1**. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n helpu cyrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir sy'n wynebu Cymru.

**Arddangosyn 1: yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio**




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion


# Cyfranogi

3 Mae cyfranogi'n ymwneud â chael sgyrsiau cyfoethog ac ystyrlon â'r bobl yn eu cymuned, canfod beth sy'n bwysig iddynt, ac adlewyrchu hynny yn y penderfyniadau y mae Awdurdodau'n eu gwneud. Mae cyfranogi'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud i'. Yn wahanol i ymgynghori, mae dulliau cyfranogi'n gweithio gyda phobl yn ystod cyfnodau cynharach, megis helpu i nodi problemau ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i gyfranogi drwy gydol prosesau cynllunio, gweithredu a gwerthuso.

4 Gan ddefnyddio ein cyflwyniad adborth diweddaraf gerbron Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, yr Awdurdod Tân ac Achub (yr 'Awdurdod') ar 29 Gorffennaf 2019, Diogelwr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ddatblygwyd gan Participation Cymru, mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi nodweddion sefydliad sydd ag agwedd effeithiol at gyfranogi.

**Arddangosyn 2 – nodweddion corff cyhoeddus sydd â dull effeithiol o gyfranogi**

Dyma nodweddion cyfranogi effeithiol….



5 Felly, dylai awdurdodau bennu eu hagenda drwy wrando ar bobl, eu cynnwys yn ystyrlon drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau, a bod yn agored i newid gwirioneddol o ganlyniad i hynny. Mae'n hanfodol bod gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl yn cael eu cynllunio, eu monitro a'u hadrodd yn briodol, fel y gellir eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae'n hanfodol sicrhau bod gan staff a sefydliadau'r sgiliau, y strwythurau yn ogystal ag amser ac adnoddau angenrheidiol i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn y tybiwn yn draddodiadol sy'n gweithio orau.

## Cwmpas ein harchwiliad

6 O gofio'r heriau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru rydym wedi adolygu dull yr Awdurdod o weithredu a rheoli'r broses o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisïau, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Aethom ati i edrych yn fanylach ar sut mae'r Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid yn y meysydd canlynol:

- ymyriadau i leihau achosion o danau bwriadol ar stad Parc Caia, Wrecsam; a
- chynllunio a datblygu StayWise Cymru – adnodd addysgol ar-lein ar gyfer gwasanaethau 'golau glas' a'u partneriaid gyda chynnwys wedi'i deilwra i fodloni dyheadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ogystal â gofynion cwricwlaidd.

## Ein canfyddiadau

7 Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nad yw wedi mabwysiadu ymagwedd strategol integredig tuag at gyfranogi hyd yma. Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod y canlynol.

### Gall yr Awdurdod ddangos cyfranogiad effeithiol wrth fynd i'r afael ag achosion o danau bwriadol ond mae nodi pwy i'w gynnwys yn ei waith ehangach yn parhau i fod yn her

8 Nodwyd enghreifftiau da o weithgaredd cynnwys yn ymwneud â lleihau llosgi bwriadol ym Mharc Caia, Wrecsam. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol a defnyddio data, treuliodd Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yr Awdurdod amser yn deall natur unigryw'r broblem tanau bwriadol yn yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys deall patrwm cylchol digwyddiadau, nodi arweinwyr cymunedol allweddol, diffyg ymddiriedaeth yn y gwasanaethau brys, a derbyniad diwylliannol o ymosodiadau

tân bwriadol fel ‘y norm’. Cyfrannodd hyn oll at amharodrwydd dinasyddion i gysylltu â’r Awdurdodau i rannu gwybodaeth i helpu gyda’u hymholiadau. Canfu’r sganio a’r dadansoddiad a wnaed gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol hefyd ddull o gynnau tanau cerbydau gyda ffiws y credir ei fod yn unigryw i’r ardal. Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth yr Awdurdod o arlliwiau materion lleol ac ymddygiadau cymunedol, a’i galluogodd i ddatblygu atebion wedi’u teilwra’n benodol.

9 Nodwyd fod Aelodau a swyddogion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweithio effeithiol mewn partneriaeth wrth gryfhau eu gweithgarwch cyfranogi, yn anad dim wrth osgoi dyblygu neu orgyffwrdd ac i gyflwyno negeseuon clir i gymunedau. Manteisiodd yr Awdurdod ar arbenigedd partneriaid lleol wrth ymgysylltu â chymuned Parc Caia er mwyn mynd i’r afael â rhwystrau cyfathrebu ac ymddiriedaeth hirsefydlog. Er mwyn adeiladu pontydd ac ennyn ymddiriedaeth y gymuned leol, bu’r Awdurdod yn gweithio gyda chlybiau ieuenctid lleol i gyd-gynhyrchu fideos yn hyrwyddo negeseuon diogelwch tân a llosgi bwriadol[1]. Newidiodd cyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, prif landlord y stad, y sefyllfa’n gyfan gwbl, gan alluogi’r Awdurdod i ymgysylltu’n uniongyrchol â thenantiaid.

10 Yn gadarnhaol, derbyniodd partneriaid trydydd sector fel Partneriaeth Parc Caia hyfforddiant gan yr Awdurdod ar sut i ddarparu gweithdai Canlyniadau Trosedd i drigolion y stad. Cyflwynwyd y gweithdai hyn mewn clybiau ieuenctid lleol. Mae agwedd gadarnhaol yr Awdurdod tuag at gydweithredu yn cael ei hadlewyrchu yn nheimlad cyffredinol y partneriaid eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cynnwys. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd cydweithredu yn gallu amrywio ac mae’n agored i newidiadau os bydd personél allweddol yn symud ymlaen neu’n cael eu hailgyfeirio i waith arall.

11 Mae’r Awdurdod yn haeddu clod am chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu a chyflawni’r Cynllun Plismona sy’n Canolbwyntio ar Broblemau (Cynllun POP) i fynd i’r afael â thanau bwriadol ym Mharc Caia. Arweiniodd yr ymyrraeth at ostyngiad o 96% mewn tanau cerbydau dros gyfnod y cynllun, ac, er gwaethaf cynnydd diweddar yn nifer y tanau yn yr ardal, mae’r Awdurdod a’i bartneriaid yn credu fod y cylch tymor hwy o gynnydd mewn achosion o danau bwriadol wedi cael ei dorri. Er gwaethaf y llwyddiant hwn, mae’r Awdurdod yn cydnabod bod amheuaeth ynghylch ei allu i gynnal ei rôl arweiniol mewn partneriaethau o’r fath.

12 Ymatebodd yr Awdurdod i farn preswylwyr wrth ddatblygu’r atebion a nodwyd yn y Cynllun POP, ac o ganlyniad, mae cyfranogiad yn cael effaith weladwy. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu â’r gymuned dair gwaith dros gyfnod o 12 mis gan ddefnyddio arolygon a gynlluniwyd i gwmpasu pryderon a syniadau preswylwyr. Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedi hynny i fesur effaith yr ymyrraeth. Deilliodd rhai o’r atebion a nodwyd yn y Cynllun POP yn uniongyrchol o’r ymarferion ymgysylltu â dinasyddion. Er enghraifft, mynegodd pobl eu hofn ynghylch cynnig gwybodaeth am droseddwyr amheus, felly gweithiodd yr

[1] Clwb Ieuenctid Pentre Gwyn Parc Caia – YouTube

Awdurdod gyda Heddlu Gogledd Cymru i sefydlu llinell ffôn newydd er mwyn iddynt adrodd ynghylch eu hamheuon yn ddienw.

13 O'i gymharu ag ymyrraeth Parc Caia, mae prosiect StayWise Cymru yn ei ddyddiau cynnar. Wrth ddatblygu pecyn addysg StayWise, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod athrawon yn cyfleu negeseuon diogelwch allweddol i genedlaethau iau ar ei ran fel rhan o gwricwlwm integredig, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o sut i fyw bywydau diogel ac iach. Gan weithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru, mae'r Awdurdod wedi nodi rhai o'r rheini y bydd angen eu cynnwys wrth lunio'r cynnyrch terfynol. Mae'r cymeriad cartŵn a grëwyd ar gyfer StayWise Cymru – 'Sbarc' – wedi cael ei brofi gan blant ysgol, ac mae rhai uwch addysgwyr wedi cael cyfle i fod yn rhan o lunio'r platfform addysgu. Mae'r Awdurdod yn ystyried opsiynau o ran sicrhau athrawon cyflenwi a staff cymorth er mwyn galluogi staff addysgu rheng flaen i fynychu gweithdai datblygu StayWise.

14 Ar y cyfan, er gwaethaf rhywfaint o ystyriaeth ynghylch pwy sydd angen ymgysylltu ac ymgynghori â hwy yn y ddau faes a adolygwyd, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull prosiect-wrth-brosiect yn bennaf. O ganlyniad, nid yw eto wedi ymgorffori cyfranogi yn strategol fel ffordd gorfforaethol o weithio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y ffordd orau o gynnwys amrywiaeth lawn eu poblogaeth leol, gan gynnwys y rhai a allai fod yn anodd eu cyrraedd. Ar draws rhanbarth eang ac amrywiol fel Gogledd Cymru, bydd gwahaniaethau bob amser o ran sut a phwy i'w cynnwys mewn gwahanol gymunedau ac mewn perthynas â gwahanol faterion.

15 Mae dull presennol yr Awdurdod o gynnwys yn golygu nad yw wedi nodi a mapio pwy yw ei randdeiliaid allweddol yn strategol. Ym Mharc Caia, cydnabuwyd ei bod yn anodd cyrraedd plant a phobl ifanc y tu allan i addysg brif ffrwd trwy ddulliau cyfathrebu arferol, a nodwyd rhwystrau wrth ymgysylltu ag athrawon rheng flaen wrth ddatblygu StayWise Cymru. Ni chafodd enghreifftiau o'r fath eu llywio gan ddull canolog i nodi grwpiau cymunedol a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod heb ystyriaeth ychwanegol na dulliau ymgysylltu wedi'u teilwra'n benodol. Heb hyn, mae risg i brosiectau unigol a meysydd gwaith ddioddef 'mannau dall' o ran cyfranogiad. Er enghraifft, nodwyd mai ystyriaeth gyfyngedig a roddwyd i gynnwys grwpiau fel Sipsiwn a Theithwyr neu gymunedau lleiafrifol eraill (er enghraifft, y gymuned Bwylaidd sylweddol sy'n byw ar stad Parc Caia).

16 Mae swyddogion yn cydnabod bod yr Awdurdod yn fwy cyfforddus yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill a phartneriaid yn y trydydd sector yn ei waith, ac yn llai cyfforddus wrth gynnwys aelodau o'r cyhoedd, ac mae eto i oresgyn yr her o gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Bydd symud o gydweithio â darparwyr gwasanaeth eraill i gynnwys yr ystod lawn o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, yn helpu'r Awdurdod i fodloni gofynion y Ddeddf. Bydd gwaith y tîm Cyfathrebu gyda'r Sefydliad Ymgynghori ar ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn gallu rhoi gwell dealltwriaeth i'r Awdurdod o sut i gynnwys

amrywiaeth lawn ei randdeiliaid, ynghyd â llwyfan i symud tuag at gyfranogiad dilys fel y'i diffinnir gan y Ddeddf.

17 Mae'r Awdurdod yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i bwy sy'n cyflwyno negeseuon i gymunedau – e.e. defnyddiwyd sefydliadau partner a gweithwyr ieuenctid ym Mharc Caia oherwydd eu statws fel unigolion y mae'r preswylwyr yn ymddiried ynddynt, ac yn fwy cyffredinol, mae diffoddwyr tân cymunedol y mae'r preswylwyr yn ymddiried ynddynt yn aml yn cael eu defnyddio wrth ymweld ag ardal i gyflwyno negeseuon diogelwch cartref i gynulleidfa leol sy'n agored i'w derbyn yn dilyn achosion o danau cyfagos. Bydd mapio'r holl randdeiliaid yn galluogi'r Awdurdod i fabwysiadu ffordd fwy systematig o nodi'r dull mwyaf effeithiol o gynnwys grwpiau neu gymunedau penodol o dan wahanol amgylchiadau.

18 Nid yw diffiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o gynnwys yn sgìl craidd sydd o reidrwydd yn gysylltiedig â rôl draddodiadol y diffoddwr tân ac mae'r Awdurdod yn wynebu her i uwchsgilio ei weithlu yn hyn o beth. Mae'r Awdurdod yn ymateb yn gadarnhaol i'r her hon – mae sgiliau ymgysylltu yn gymhwysedd craidd yn ei raglenni prentisiaeth newydd a'i raglen Arweinwyr Ifanc, ac mae hefyd yn integreiddio'r sgiliau hyn i nodau staff a mentrau datblygu yn y dyfodol. Mae Aelodau Etholedig a rhai rheolwyr yn derbyn hyfforddiant cyfryngau, er mwyn gwella eu sgiliau cyfathrebu a dylanwadu ar ffurfwyr barn. Mae agwedd yr Awdurdod tuag at y Gymraeg yn glodwiw, ac mae'n ofynnol i'r holl staff fod â'r gallu i gyfathrebu ar lefel 2 neu'n uwch.

## Defnyddir gweithgaredd cyfranogi yn bennaf i ymateb i broblemau ac mae eto i ddod yn ased strategol sy'n helpu i sbarduno gwelliant

19 Oherwydd pwysigrwydd cynyddol atal ac ehangu rolau i fynd y tu hwnt i ymateb brys, mae gan Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyfle i sicrhau bod dinasyddion yn chwarae mwy a mwy o ran wrth lunio a dylanwadu ar eu gwaith. Fel y disgrifir uchod, mae heriau i'w goresgyn wrth nodi pwy i'w cynnwys a sut i'w cynnwys, yn anad dim mewn meysydd fel Diogelwch ar y Ffyrdd. Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod wrthi'n hyrwyddo negeseuon diogelwch i bobl y tu hwnt i ardal Gogledd Cymru, er bod defnyddwyr ffyrdd yn y rhanbarth yn dod o lawer o ardaloedd ledled Cymru, Lloegr a thu hwnt.

20 Yn gadarnhaol, nodwyd fod gan yr Awdurdod ddiwylliant cryf o fod yn 'ddatryswyr problemau' – yn ôl swyddogion, anaml y bydd yr Awdurdod yn dweud 'na' pan fydd yn derbyn cais i wneud pethau. Er bod hwn yn gryfder sefydliadol amlwg, gall gyfyngu ar gapasiti, sy'n gallu esbonio pam nad yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori'n llawn ym mhob agwedd ar waith yr Awdurdod eto. Canfu ein gwaith maes fod mwy o waith i'w wneud i wreiddio'r ymddygiadau a'r diwylliant hyn. Mae prif ffrydio cyfranogiad yn gofyn am flaenoriaethu effeithiol, cefnogi parhaus ac arweinyddiaeth o bob rhan o'r Awdurdod.

21 Mae'r Awdurdod yn aml yn cynnwys rhanddeiliaid pan fydd yn wynebu problem uniongyrchol y mae angen ei datrys. Er enghraifft, roedd ymgysylltu â thrigolion ym Mharc Caia i lunio'r ymyriadau i leihau llosgi bwriadol yn ymateb uniongyrchol i'r nifer cynyddol o danau cerbyd ar y stâd. Er bod yr ymgysylltiad yn effeithiol, unwaith y bydd y broblem uniongyrchol yn cael ei datrys, mae'r gwaith ymgysylltu yn dod i ben i raddau helaeth. Mewn enghraifft arall, ymgysylltodd yr Awdurdod â Chyfarwyddwyr Cyllid chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r cyllid a ddarperir i'r Awdurdod Tân ac Achub, cyn trafod â chynghorwyr lleol. Er bod y rhain yn weithgareddau cadarnhaol, ni welsom unrhyw enghreifftiau o gyfranogiad rhagweithiol a pharhaus gyda'r nod o gysylltu â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i roi'r cyfle gorau iddynt lunio a dylanwadu ar waith yr Awdurdod.

22 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) yn diffinio atal fel 'gweithio mewn partneriaeth a chynhyrchu ar y cyd y canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio cryfderau ac asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu'. Mae'r Comisiynydd wedi rhannu gweithgareddau ataliol i bedair lefel wahanol:

- atal sylfaenol – adeiladu cydnerthedd: creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd gyffredinol.
- atal eilaidd: targedu camau tuag at feysydd lle mae risg fawr y bydd problem yn digwydd. Ymagwedd wedi ei thargedu sy'n sefydlu egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar (penderfyniad i ddarparu cymorth i bawb, gan roi i bawb a phopeth lais a diddordeb personol, ond sy'n cydnabod y bydd mwy o gymorth yn ofynnol mewn ardaloedd lle mae mwy o angen).
- atal trydyddol: ymyrryd pan fydd problem wedi digwydd, i'w hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd ymyrryd.
- gwariant acíwt: gwariant sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol[2].

23 Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, rydym wedi categoreiddio menter StayWise Cymru (sy'n canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o sut i fyw bywydau diogel ac iach ymysg cenedlaethau iau) fel atal sylfaenol. Canfu ein hadolygiad, fodd bynnag, mai prin yw'r cyfranogiad dilys yn y prosiect hyd yn hyn – yn y broses o addasu platfform StayWise Saesneg ar gyfer cynulleidfa o Gymru, mae'r ymgysylltu a'r ymgynghori allanol wedi canolbwyntio'n bennaf ar uwch addysgwyr.

24 Mae'r enghreifftiau cynnwys a adolygwyd gennym yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau atal trydyddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith cynnwys ataliol y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol ym Mharc Caia, Wrecsam. Er gwaethaf ei waith cadarnhaol, mae'r tîm yn gweithredu ar gontractau blynyddol sy'n cael effaith negyddol ar staff. Yn yr un modd, nid yw gweithgareddau ataliol menter Phoenix – prosiect i addysgu pobl ifanc 13-17 oed am bwysigrwydd diogelwch tân a chanlyniadau tanau bwriadol a galwadau ffug – yn derbyn cyllid craidd. Nid yw'n

[2] Proses gyllidebol a gwariant ataliol, gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

hawdd mynd i'r afael â her rhaglenni tymor byr sy'n cael eu hariannu gan grant. Mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru symud cyllid grant blynyddol i gyllid craidd neu i'r Awdurdod brif ffrydio gweithgareddau Lleihau Llosgi Bwriadol i weithredu yn unol â'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

25 Bydd mapio rhanddeiliaid, adnabod y rhai sy'n anodd eu cyrraedd, a chynnwys pobl yn rhagweithiol ac yn barhaus yn helpu'r Awdurdod i nodi a manteisio ar fwy o gyfleoedd i glywed a gwrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod nod o gynnal 20,000 o ymweliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn, ond mae'n eu cyfyngu i rannu gwybodaeth yn hytrach na defnyddio'r rhyngweithiadau wyneb yn wyneb gwerthfawr hyn i holi barn pobl am eu gwasanaethau. Yn y cyfamser, mae ymgynghoriadau traddodiadol seiliedig ar ddogfennau yn dal i gael eu cynnal – er enghraifft, Strategaeth Amgylcheddol hirdymor yr Awdurdod (Medi 2019) a dderbyniodd dim ond 24 o ymatebion.

26 Yn gadarnhaol, mae'r Awdurdod yn gwerthuso rhywfaint o'i weithgaredd cyfranogi ac felly mae'n gallu dysgu beth sy'n gweithio er mwyn cynyddu a phrif ffrydio'r gweithgaredd hwn. Mae'r Cynllun POP a luniwyd ar gyfer Parc Caia yn adlewyrchu'r ystyriaeth gynnar a roddwyd i sicrhau bod dangosyddion mesuradwy yn cael eu cynnwys ar ba mor ddiogel roedd y gymuned yn teimlo cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. O ganlyniad, mae'r Awdurdod yn gallu casglu a chymhwyso gwersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill lle mae problemau tebyg, megis Blaenau Ffestiniog.

## Cynigion ar gyfer gwella

27 Yn hytrach na rhestru cynigion ar gyfer gwella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio wrth nodi cryfderau a gwendidau ei ddulliau presennol o gyfranogi. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i farnu pa mor dda mae'r Awdurdod yn ei wneud ac ymhle y mae angen newid er mwyn sicrhau bod cyfranogi'n cael ei brif ffrydio a'i wneud yn gynaliadwy. Disgwyliwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r adnodd hwn i werthuso ei berfformiad presennol ac i nodi sut y gall wella ei waith.

**Arddangosyn 3: hunanasesu**

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Mae gennym ddull strategol a fframwaith corfforaethol ar gyfer cyfranogi sy'n cyfeirio gweithgarwch | | | |
| Rydym yn deall pwy sydd angen ei gynnwys a pham | | | |
| Rydym yn blaenoriaethu'r gofod, yr amser a'r adnoddau ar gyfer cyfranogi ystyrlon | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o’r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd cyfranogi er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar ein polisïau a’n cynlluniau | | | |
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd cyfranogi er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd cyfranogi’n helpu i wella eu bywydau | | | |
| Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd cyfranogiad yn arwain at newid yn digwydd | | | |
| Rydym yn esbonio’r effaith y mae cyfranogi wedi’i chael ar ein penderfyniadau, ein polisïau a’n gwasanaethau | | | |
| Rydym yn teilwra ein dull o gyfranogi er mwyn sicrhau y gall pob dinesydd a phartner gymryd rhan | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgarwch cyfranogi i lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dulliau o gyfranogi'n arbed arian ac yn osgoi dyblygu gyda'r gweithgareddau tebyg a gyflawnir gan ein partneriaid | | | |
| Mae ein dulliau o gyfranogi'n caniatáu i'n partneriaid ein dal ni i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dulliau o gyfranogi'n caniatáu i ddinasyddion ein dal i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dulliau o gyfranogi'n bleserus ac yn werth chweil | | | |
| Mae ein dulliau o gyfranogi'n ein helpu i integreiddio ein gwaith i osgoi seilos | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio canlyniad ein gwaith cyfranogi i weithio'n gyd-gynhyrchiol i gynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o gyfranogi er mwyn dysgu beth sy'n gweithio | | | |
| Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o gyfranogi er mwyn nodi'r hyn sydd angen gwella | | | |

# Atodiad 1

## Enghreifftiau o ddulliau cyfranogi yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU

Mae Awdurdodau Tân ac Achub eraill yn y DU yn cynnwys eu rhanddeiliaid yn strategol a lle mae hyn yn gweithio'n dda, maent yn tueddu i wneud hyn yn rheolaidd ac yn gydweithredol.

Yn 2019 cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad[3] 'Your Service, Your Voice' ynghylch trawsnewid y gwasanaeth ac integreiddio gweithredol agosach gyda Gwasanaeth Ambiwlans yr Alban. Yn gyffredinol, cafwyd 1563 o ymatebion i'r ymarferiad, gyda'r mwyafrif ohonynt gan unigolion, a 32 o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ac 85 o sefydliadau eraill. Roedd y dulliau'n cynnwys cyfres wedi'i chynllunio'n dda o ymarferion gwybodaeth i'r cyhoedd i'w paratoi ac egluro beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud a sut y bydd y cyhoedd yn elwa o newid. Cafodd gwerth tair blynedd o ganfyddiadau ymgynghoriadau a chwynion eu hadolygu hefyd i ddod o hyd i unrhyw dueddiadau. Ystyriwyd rhoi ystyriaeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwahanol a chanddynt nodweddion gwarchodedig hefyd, a chafodd grwpiau cynrychioliadol eu cynnwys yn gynnar yn y broses er mwyn cynllunio'r ymarfer. Un canfyddiad allweddol yw mai ffocws parhaus ar atal yw'r ffordd orau o amddiffyn unigolion. Fodd bynnag, er bod y staff yn agored i newid, mae'r ymarfer yn gweld hefyd bod y cyhoedd yn fwy amheus ac yn gweld cynigion fel rhai sy'n cynnal diffygion mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Dwyrain Sussex yn cynnal gweithgarwch cyfranogi rheolaidd yn hytrach nag ymgyngoriadau 'unigol' ar fater penodol. Rhennir calendr blynyddol o weithgarwch ymgysylltu â phartneriaid ac mae gweithgarwch yn cael ei gydgysylltu a'i integreiddio ag eraill lle bo modd. Profir syniadau a chynigion yn rheolaidd drwy fforwm ar-lein yr Awdurdod ac mewn sesiynau diogelwch cymunedol pwrpasol gan y panel dinasyddion a arweinir gan y Cyngor Sir. Mae gan bob sesiwn "Ask the Fire Authority", diwrnodau agored a sioeau teithiol yn yr ardal thema sy'n seiliedig ar amcan corfforaethol a chaiff y canlyniadau eu hadolygu'n annibynnol gan banel cyfeirio rhanbarthol o arbenigwyr, yn ogystal â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol. Cynhelir arolygon rheolaidd ar themâu yn hytrach na pholisïau. Mae cyfres o Egwyddorion Ymgynghori wedi'u nodi ar wefan yr Awdurdod, gweler getting-involved.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n rheolaidd â'i gymunedau i roi'r cyfle iddynt ddweud beth y maent am ei gael gan yr Awdurdod. Mae Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n gynnar cyn iddynt ddatblygu cynlluniau, rhannu data a gwybodaeth gyda phartneriaid ar gynllunio gweithgarwch ymgysylltu. Mae'r Awdurdod yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd megis teithwyr, ac mae ei waith ymgysylltu wedi'i integreiddio yn ei weithgarwch cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae'r Awdurdod yn cynnal arolygon a gwerthusiadau ar-lein rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth; bodlonrwydd, cwynion; ymweliadau ag ysgolion; Ymweliadau Safe & Well; a newidiadau i'r ddarpariaeth i ymdrin â thân. Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw pobl yn gwybod digon o reidrwydd am rôl ehangach y gwasanaeth tân ac achub. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid roi sylwadau am rywbeth nad ydyn nhw'n gwybod rhyw lawer amdano. Mewn ymateb mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu canllaw a fideo ar-lein rhyngweithiol am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod.
Gweler Canllaw Gwasanaeth Cwsmeriaid. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a pha bethau sy'n newid o ganlyniad wedi eu cyhoeddi ar-lein

[3] Gweler your-service-your-voice

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.